# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 5 Chwefror 2026

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid

**** Caiff egwylion rheolaidd eu cyhoeddi gan y Cadeirydd ****

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

## Cyfarfod cyhoeddus

09.30 - 16.00

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Papurau i'w nodi

09.30

### 2.1 Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2026

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 22 Ionawr 2026

**2.2 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**

(Tudalennau 3 - 27)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru - Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 23 Ionawr 2026

Ymateb Llywodraeth Cymru - Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 26 Ionawr 2026

**2.3 Diwydiant Cymru**

(Tudalennau 28 - 33)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Diwydiant Cymru - 21 Ionawr 2026 (Saesneg yn unig)

**2.4 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1**

(Tudalennau 34 - 39)

**Dogfennau atodol:**

Ymatebion pellach gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg - 27 Ionawr 2026

**2.5 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Banc Datblygu Cymru**

(Tudalennau 40 - 47)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd Banc Datblygu Cymru - 28 Ionawr 2026

**2.6 Cau Porthladd Caergybi**

(Tudalennau 48 - 52)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gymdeithas Cludiant Ffyrdd - 23 Ionawr 2026 (Saesneg yn unig)

Llythyr gan Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Iwerddon - 27 Ionawr 2026 (Saesneg yn unig)

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru - 29 Ionawr 2026

**2.7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(Tudalen 53)

**Dogfennau atodol:**

Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 29 Ionawr 2026

**2.8 Gwaith dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Ionawr 2026 - Mewnfuddsoddi**

(Tudalennau 54 - 55)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at randdeiliaid – 30 Ionawr 2026

**2.9 Mewnfuddsoddi**

(Tudalennau 56 - 61)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Global Welsh – 30 Ionawr 2026

Llythyr gan y Cadeirydd at Gymry Efrog Newydd – 30 Ionawr 2026

Llythyr gan y Cadeirydd at Siambrau Masnach Prydain – 30 Ionawr 2026

## 3 Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Trafodion Cyfnod 2

09.30 - 16.00

Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru
Robbie Thomas, Pennaeth Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru
Rebecca Hawkins, Ymgynghorydd Polisi Deddfwriaethol, Trwyddedu Llety i Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru
Kate Lewandowska, Swyddfa y Cwnsleriaid Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Bydd y dogfennau sy'n berthnasol i drafodion Cyfnod 2 ar gael ar dudalen y Bil.

Cytunodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 21 Ionawr 2026, o dan Reol Sefydlog 26.21, y byddai'r drefn ystyried ar gyfer trafodion Cyfnod 2 fel a ganlyn:

Adrannau 1-4; Atodlen 1; Adrannau 5-14; Atodlen 2; Adrannau 15-60; Teitl Hir.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar ddydd Mercher 11 Chwefror 2026

16.00

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA/HIDCC/0057/26

Andrew RT Davies, AS
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomy@senedd.wales

22 Ionawr 2026

Annwyl Andrew,

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio, yn yr achos hwn, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud a gosod Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2026.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan adran 36(1)(b) ac (c) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 ac adran 15 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Gedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae’r Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth a gymathwyd, Rheoliad y Cyngor (EU) 2020/123 gan bennu'r cyfleoedd ar gyfer 2020 i bysgota stociau pysgod a grwpiau o stociau pysgod penodol, sy'n gymwys i ddyfroedd yr Undeb ac, ar gyfer cychod pysgota'r Undeb, mewn dyfroedd penodol nad ydynt yn perthyn i'r Undeb.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud addasiadau i lefel draenogod y mor Ewropeaidd y caniateir eu dal o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain, fel y nodir yn Erthygl 10(5) o Reoliad y Cyngor (EU) 2020/123, ar gyfer pysgodfeydd hamdden. Cynyddu nifer y pysgod y gellir eu cadw o ddau y dydd i dri. Mae'r Rheoliadau hefyd yn tynnu cŵn pigog wedi'u casglu o dros 100cm o'r rhestr o rywogaethau gwaharddedig a gynhwysir yn Erthygl 16 o Reoliad y Cyngor (EU) 2020/123.

Cytunwyd ar y newidiadau hyn yn ystod ymgynghoriadau pysgodfeydd diweddar yr UE yn y DU o dan fframwaith y cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Yn unol ag adran 40 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cysylltu â Gweinidogion Cymru a'r Alban, a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon am ganiatâd i wneud y Rheoliadau hyn.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel y DU. Pwrpasy Rheoliadau yw gwneud mân ddiwygiadau technegol i ddeddfwriaeth bresennol sy'n cael ei chymhwyso ledled y DU, er mwyn gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU sy'n codi o ganlyniad i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymgynghoriadau Pysgodfeydd blynyddol y DU-UE. Mae dull y DU gyfan o wneud y diwygiadau yn sicrhau gweithredu amserol a pharhad polisi, gan ddarparu maes chwarae cyfartal i bysgotwyr ledled y DU.

Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 6 Chwefror.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 Llywodraeth Cymru

## Cyflwyniad

Ar 14 Hydref 2025, gosododd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft amlinellol ar gyfer 2026-27 ac ar 3 Tachwedd 2025, gosododd ei Chyllideb Ddrafft fanwl. Mae'r ymateb hwn yn dilyn tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod craffu ar y gyllideb ar 26 Tachwedd 2025.

Cynhaliodd y Pwyllgor dair sesiwn graffu yn y cyfarfod hwnnw. Roedd y sesiwn gyntaf yn edrych ar faterion gwledig gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ('y Dirprwy Brif Weinidog'). Roedd yr ail sesiwn yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â masnach a ffiniau gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ('Ysgrifennydd y Cabinet'). Roedd y sesiwn derfynol yn edrych ar yr economi a sgiliau gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ("y Gweinidog").

Mae'r argymhellion yn dilyn y tair sesiwn graffu wedi cael eu hystyried yn ofalus. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn ymateb i argymhellion 1-16.

Bydd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn ateb argymhellion 19-25 ar wahân. Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth barhaus.

# Contents

1. Economi a Sgiliau....................................................................................4
2. Masnach a Ffiniau ..................................................................................13
3. Materion Gwledig.................................................................................. 16

# 1. Economi a Sgiliau

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn rhai argymhellion yn llwyr, ond rydym wedi gorfod eu gwrthod gan mai mater i'r Llywodraeth nesaf fydd penderfynu a yw'n dymuno bwrw ymlaen â hwy.

## Cymorth i Fusnes

**Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid i Busnes Cymru i lefel y gall gynyddu ei effaith gadarnhaol ar werth ychwanegol gros.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae £22.5m yn cael ei ddyrannu i wasanaeth Busnes Cymru yng nghyllideb 2026/27 a fydd yn galluogi'r gwasanaeth i ymgysylltu â dros 30,000 o bobl ifanc, ymgysylltu â 5,000 o oedolion mewn mentrau cam cynnar, darparu cymorth uniongyrchol i dros 5,500 o entrepreneuriaid a busnesau a chefnogi 4,000 o swyddi. Mae hyn yn rhan o gyfres ehangach o gymorth sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru i fusnesau bach a chanolig ledled Cymru.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran rhoi argymhellion yr Adolygiad Cymorth Busnes ar waith.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf maes o law am y gwaith o roi ar waith yr argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Cymorth Busnes.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'r cymorth i fusnesau manwerthu cymwys drwy gyflwyno'r lluosydd manwerthu newydd yn cymharu â'r hyn sydd ar gael drwy'r rhyddhad a gynigir drwy'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden yn 2025-26.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y lluosydd manwerthu newydd (0.350) 30% yn is na'r lluosydd safonol (0.502) sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2026 ymlaen, a 38% yn is na lluosydd 2025-26. Daw'r gostyngiad hwn o ganlyniad i ailbrisiad ardrethi annomestig 2026 a'r penderfyniad i gyflwyno lluosydd manwerthu is.

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru fonitro effaith y lluosydd ardrethi busnes newydd ar sector manwerthu'r stryd fawr a cheisio ymestyn hyn i fusnesau lletygarwch a hamdden ar y stryd fawr cyn gynted â phosibl os bydd yn llwyddiannus.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd trefniadau monitro ar ôl gweithredu, fel yr adlewyrchir yn yr asesiadau effaith sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn. Fel y defnydd arloesol cyntaf o'n pwerau i ragnodi lluosyddion gwahaniaethol, bwriedir i hyn helpu i lywio'r dull o ymdrin â diwygiadau pellach posibl yn y dyfodol. Mater i'r llywodraeth nesaf fydd penderfynu a ddylid gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r lluosyddion sy'n berthnasol yng Nghymru.

## Y Cymoedd Technoleg

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r targed o £100m ar gyfer y Cymoedd Technoleg, egluro'r hyn y gall prosiect y Cymoedd Technoleg ei gyflawni a chyhoeddi amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflawni hynny.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae rhaglen y Cymoedd Technoleg yn mynd i'r afael â materion sydd wedi hen wreiddio - amddifadedd economaidd, prinder sgiliau, bylchau mewn seilwaith, a syrthni diwylliannol - drwy geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd y pedwerydd chwyldro diwydiannol i greu ecosystem dechnoleg gynaliadwy.

Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol hyd yma, mae ardal y Cymoedd Technoleg ym mhen uchaf y cymoedd yn dal i wynebu'r heriau a achosir gan arwahanrwydd ffisegol a chanfyddedig cymunedau'r cymoedd, hyd yn oed gyda gwelliannau i'r A465, ac ymrwymiad araf gan y sector preifat sy'n hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Fodd bynnag, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn yr ardaloedd lle gwelwyd buddsoddiad gan raglen y Cymoedd Technoleg.

Felly, mae dadl gref dros barhau â rhaglen y Cymoedd Technoleg a'r ymrwymiad cyllido ond bod angen proffilio gwariant dros gyfnod hirach er mwyn gallu datblygu rhagor o brosiectau ar gyfer y rhaglen.

**Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru anrhydeddu ymrwymiad y Cymoedd Technoleg a buddsoddi gweddill cyllid y prosiect cyn gynted â phosibl.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r achos economaidd dros barhau i fuddsoddi yn rhaglen y Cymoedd Technoleg yn un cryf o hyd. Mae rhaglen y Cymoedd Technoleg yn mynd i'r afael â heriau economaidd sydd wedi hen wreiddio ac mae wedi dangos cynnydd ystyrlon. Gallai chwistrelliad cyflym o gyllid ddatgloi prosiectau sydd wedi'u gohirio neu brosiectau cymhleth, yn enwedig os gellid darparu adnoddau ar gyfer tîm cyflawni penodol. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn *mewn egwyddor*, er mwyn rhoi sicrwydd i bartneriaid a rhanddeiliaid i gefnogi parhad ymdrechion cyflawni penodol, heb ymrwymo'r Llywodraeth nesaf.

## Cynhyrchiant a chystadleurwydd

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiad lefel uchel i dwf cynhyrchiant yn y Gyllideb Derfynol ac ystyried gweithredu argymhellion Fforwm Cynhyrchiant Cymru, yn enwedig creu cynllun cynhyrchiant cenedlaethol, i gefnogi'r nod hwn.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae cyflawni'r Genhadaeth Economaidd yn dal yn ganolog i'n dull gweithredu. Mae ein cenhadaeth yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer economi gryfach, decach a gwyrddach, ac mae twf cynhyrchiant yn sbardun allweddol i gyflawni'r canlyniadau hyn.  Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyflawni twf cynhyrchiant hirdymor ac y bydd angen cydweithio trawslywodraethol cryf i gyflawni hynny, ac rydym wrthi'n edrych ar yr holl ddulliau datganoledig o wella cynhyrchiant ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd buddsoddi yn sectorau twf y dyfodol a nodir yn y Strategaeth Ddiwydiannol, fel technolegau digidol ac ynni glân. Bydd y buddsoddiadau hyn yn hanfodol i gynyddu lefelau cynhyrchiant yng Nghymru yn y tymor canolig a'r tymor hir.  Rydym hefyd yn bwrw ymlaen ag argymhellion o'n Hadolygiad Tymor Byr o Gynhyrchiant Busnesau Bach a Chanolig. Busnesau bach a chanolig yw’r mwyafrif helaeth o fentrau yng Nghymru, a bydd y ffrwd waith hon yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu cymorth mwy hygyrch o ansawdd uchel iddynt, a’u

bod yn cael y cyllid sydd ei angen arnynt, yn manteisio ar syniadau newydd ac yn gwerthu dramor.

Byddwn yn ystyried argymhellion Fforwm Cynhyrchiant Cymru fel rhan o'n gwaith parhaus i gryfhau gwydnwch economaidd a chystadleurwydd Cymru. Nodir bod twf cynhyrchiant yn un o'r dangosyddion llesiant cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, felly mae eisoes yn destun i waith monitro ac adrodd mewn cysylltiad â'r dangosyddion hynny.

## Cymorth cyflogaeth ac anweithgarwch economaidd

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o ddefnyddio ffrydiau cyllido presennol a newydd i gefnogi pobl sy'n economaidd anweithgar i gael gwaith. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai archwilio sut y gall cynigion a ddatblygwyd yn ddiweddar gan Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru a Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru gyfrannu ac ystyried a ellid defnyddio cyllid ychwanegol o gyllideb 2026-27 i dreialu unrhyw elfennau o'r cynigion hyn cyn cyflwyno'r rhaglen cymorth cyflogadwyedd newydd yn 2027.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion yr adroddiadau hyn wrth ddatblygu'r Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd a fydd yn cael ei lansio yn 2027. Mae cwmpas y rhaglen yn cynnwys y canlynol:

- NEETs (16-24)
- Pobl 25 oed a hŷn sy'n profi diweithdra tymor byr (hyd at 6 mis)
- Pobl 25 oed a hŷn sy'n profi diweithdra tymor hir (di-waith am dros 6 mis a hyd at 24 mis)
- Anweithgar yn economaidd;

Bydd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn cyhoeddi diweddariad i'r Senedd ar ddatblygiadau'r Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd yn nhymor y gwanwyn.

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r buddsoddiad cynyddol mewn gwasanaethau cymorth cyflogaeth i sicrhau eu bod yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at y farchnad swyddi. Os gwelir bylchau yn y ddarpariaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i ddarparu gwasanaethau arbenigol tebyg i'r rhai a gynigir o dan y rhaglen Ymgysylltu i Newid.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae buddsoddiad sylweddol eisoes wedi cael ei gyfeirio at gymorth cyflogadwyedd yng Nghymru ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r model Ymgysylltu i Newid fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd newydd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn gwella canlyniadau i bobl ag anableddau dysgu sy'n parhau i wynebu rhwystrau anghymesur o ran cael mynediad i'r farchnad lafur. Rydym eisoes wedi cryfhau ein trefniadau monitro ar draws y ddarpariaeth cyflogadwyedd bresennol i asesu pa mor effeithiol y mae gwasanaethau am gefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael gwaith.

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut bydd yn ymateb i gynnydd pellach mewn diweithdra, yn enwedig os bydd unrhyw sioc yn y farchnad lafur, a sut mae'n sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer rhaglenni fel ReAct+, fel eu bod yn gwbl barod i ymateb i unrhyw gynnydd mewn diweithdra. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru hefyd sicrhau bod y gwaith o baratoi ar gyfer cynnydd posibl mewn diweithdra yn rhan o'i chynlluniau ariannol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod angen cynllunio'n rhagweithiol ar gyfer unrhyw gynnydd a ragwelir ac unrhyw gynnydd posibl mewn diweithdra, gan gynnwys y posibilrwydd o siociau sydyn yn y farchnad lafur. Rydym yn cadw gwybodaeth amser real am swyddi sy'n cael eu dileu ledled Cymru gan sicrhau bod rhaglenni fel ReAct+ yn parhau i gael digon o adnoddau a'u bod yn hyblyg yn weithredol i ymdopi â'r cynnydd yn y galw.

Mae'r Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd newydd yn cael ei chynllunio i gynnig hyblygrwydd a mater i'r Llywodraeth newydd fydd cytuno ar y cyfeiriad polisi a'r model cyllido ar gyfer y rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd ar ôl yr etholiad.

## Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

**Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru nodi cynlluniau wrth gefn yn glir ochr yn ochr â chyhoeddi'r gyllideb derfynol i sicrhau bod gwerth gorau'n cael ei gyflawni o'u buddsoddiad yn y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd os na fyddant yn sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat yn y flwyddyn galendr nesaf.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE) Cyf wrthi'n gweithio ar ddiweddariad i gynllun busnes y prosiect trac rheilffyrdd prawf ochr yn ochr ag opsiynau eraill ar gyfer y safle y gellir eu darparu ochr yn ochr â'r prosiect rheilffyrdd craidd neu'n annibynnol iddo. Bydd y gwaith cynllunio'n ystyried y goblygiadau sy'n deillio o lwyddiant neu fethiant y prosiect i gynyddu'r buddsoddiad preifat sydd ei angen ar gyfer y prosiect rheilffyrdd craidd. Bydd yr opsiynau hynny'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ffurf diweddariad o Gynllun ac Achos Busnes y Rhaglen, a bydd y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn ei ddefnyddio i lunio cynllun wrth gefn ar ei sail i Lywodraeth Cymru gytuno arno.

## Sgiliau

**Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth benodol i'r Pwyllgor am yr awgrymiadau a ddarperir ynghylch y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Gweithredu Prentisiaethau a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Medr ei wneud.**

**Ymateb: Derbyn**

Dyrannwyd £5m o gynnydd i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Prentisiaethau fel rhan o becyn y Gyllideb Derfynol. Mae hyn ar ben y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r gyllideb ddrafft. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r cynnydd yn nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd a'r costau cyflawni uwch ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r cyfrifoldebau gweithredol sydd gan Medr ar hyn o bryd ar ôl trosglwyddo swyddogaethau.

Rydym yn disgwyl i Medr ddefnyddio'r cyllid hwn i wneud y canlynol:

- rheoli'r pwysau parhaus ar ddysgwyr sy'n cael ei greu gan y £4m ychwanegol a ailgyfeiriwyd gan Medr yn 2025/26;
- sicrhau sefydlogrwydd yn y system contractau prentisiaethau;
- blaenoriaethu prentisiaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion economaidd a nodwyd, gan gynnwys sectorau digidol, peirianneg, gweithgynhyrchu, sero net a'r economi sylfaenol;
- cynnal ansawdd, ymateb i alw gan gyflogwyr, a sicrhau gwerth am arian;
- cefnogi'r gwaith o gynllunio'r rhaglen brentisiaethau newydd i'w chyflawni o 2027 ymlaen.

Mae'r disgwyliadau sydd ynghlwm wrth y gyllideb hon yn rhan o'r cyfrifoldebau ehangach a nodwyd yn flaenorol i Medr pan gafodd ei sefydlu, gan gynnwys y gofyniad i ddatblygu system drydyddol sy'n ymateb i angen economaidd; cynnal ansawdd ac ehangu cyfranogiad; rhoi'r dysgwr wrth galon y system; a sicrhau bod y system addysg drydyddol yn cyfrannu at flaenoriaethau economaidd a chymdeithasol Cymru. Rhaid i Medr hefyd weithredu yn unol â Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth Cymru a Chytundeb yr Asiantaeth o dan y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Y disgwyliadau hyn yw’r sail i'r defnydd o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Prentisiaethau a sicrhau cysondeb ar draws y system addysg drydyddol.

**Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut yn union y bydd yn ymdrin â'r pwysau ariannol yn y dyfodol ar y gyllideb brentisiaethau, gan gynnwys, os oes angen, sut y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei nodi.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r pwysau ariannol yn y dyfodol ar y gyllideb brentisiaethau ar gyfer 2026-27 yn deillio o'r canlynol:

- y garfan o ddechreuadau ychwanegol a gefnogir gan ailddyraniad Medr o £4m yn ystod y flwyddyn yn 2025/26; a’r
- galw parhaus a chostau cyflawni cynyddol ar draws fframweithiau blaenoriaeth.

Amcangyfrifodd Medr mai ychydig dros £3.3m fyddai cyfanswm costau parhaus dysgwyr ar gyfer 2026-27. Yn dilyn Cyllideb Derfynol 2026-27, a dyraniad ychwanegol o gyllid ar gyfer cyllidebau Prentisiaethau, mae'r pwysau i’r dyfodol a nodwyd yn flaenorol wedi cael ei ddileu bellach. Mae'r cynnydd yn ddigon i dalu holl gostau parhaus dysgwyr yn llawn ar yr un pryd â chynnal sefydlogrwydd rhaglenni a chefnogi gweithgarwch prentisiaethau yn y dyfodol. Bydd gweddill y cyllid yn cael ei flaenoriaethu yn unol ag amcanion strategol Llywodraeth Cymru.

Yn unol â phrosesau rheoli ariannol sefydledig Llywodraeth Cymru, bydd Medr yn parhau i fonitro’n ofalus ei ddyraniad a glustnodwyd, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, a gweithio gyda swyddogion i ystyried unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen yn ystod y flwyddyn. Bydd addasiadau pellach yn cael eu rheoli drwy brosesau cyllidebol parhaus i sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu halinio â blaenoriaethau strategol ac yn cynnig gwerth am arian.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Medr yn monitro'r gyllideb yn gadarn, yn tynnu sylw swyddogion at unrhyw bwysau sy'n datblygu, ac yn sicrhau bod penderfyniadau cyllido yn parhau i gefnogi amcanion y rhaglen. Mae'r

disgwyliadau hyn yn dal yn ganolog i'n dull o reoli pwysau i'r dyfodol o ran prentisiaethau ar gyfer 2026-27.

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi cryn ystyriaeth i ddefnyddio cyllid heb ei ddyrannu i gefnogi'r sector prentisiaethau ac yn ehangach i gefnogi prentisiaid i gael mynediad at astudio.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r rhaglen brentisiaethau yn dal i fod yn flaenoriaeth gan y gweinidog. Fel rhan o gyllideb derfynol 2026-27, mae Gweinidogion wedi darparu cynnydd ychwanegol o £5m i gefnogi'r rhaglen brentisiaethau ac wedi neilltuo cyllid prentisiaethau fel dyraniad o fewn setliad Medr. Byddwn yn parhau i ystyried cyllid cyffredinol Prentisiaethau ac os bydd cyfleoedd yn codi yn ystod y flwyddyn, bydd y gyllideb prentisiaethau'n parhau i gael ei hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer dyraniadau atodol.

O ran cefnogi mynediad prentisiaid i astudio, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Medr a darparwyr i helpu i sicrhau y gall prentisiaid gael gafael ar yr addysg a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i lwyddo i gwblhau eu rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys cynnal buddsoddiad mewn mecanweithiau cymorth allweddol fel cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn addysg bellach, cryfhau gwasanaethau ac arweiniad gyrfaoedd, sicrhau bod gan ddarparwyr gyllid priodol i ddarparu addysg o ansawdd uchel tu allan i'r gwaith, a blaenoriaethu fframweithiau sy'n galluogi symud ymlaen o Lefel 2 i brentisiaethau lefel uwch a gradd-brentisiaethau. Byddwn yn parhau i bwyso a mesur lle mae rhwystrau rhag mynediad yn bodoli, gan gynnwys teithio, mynediad digidol, a chymorth dysgu, ac yn gweithio gyda phartneriaid i nodi mesurau lliniaru o fewn amlen y gyllideb sydd ar gael.

**Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog nodi ei syniadau ynghylch a ddylid ychwanegu rhagor o bynciau at y rhaglen gradd-brentisiaethau, faint y gallai hynny ei gostio a beth allai'r manteision fod i ddysgwyr ac i'r economi.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gallai ehangu gradd-brentisiaethau fod yn fuddiol lle mae tystiolaeth glir bod galw gan gyflogwyr, anghenion dysgwyr a gwerth economaidd. Ar hyn o bryd cost gradd-brentisiaethau yw tua £27,000 y dysgwr, sy'n golygu bod yn rhaid cynllunio unrhyw ehangu dros nifer o flynyddoedd. Er enghraifft, byddai tua 100 o leoedd ychwanegol yn costio tua £1m ym Mlwyddyn 1, £2m ym Mlwyddyn 2 a £3m ym Mlwyddyn 3 oherwydd parhad dysgwyr.

Wrth ddatblygu'r Rhaglen Prentisiaethau newydd i'w rhoi ar waith o fis Awst 2027 ymlaen, mae Medr eisoes wedi cynnal gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu helaeth sy'n berthnasol yn uniongyrchol i ddarpariaeth prentisiaethau lefel uwch a gradd-brentisiaeth yn y dyfodol. Drwy'r ymgynghoriad cenedlaethol a lansiwyd ym mis Medi 2025 ac ymgysylltu cynharach â rhanddeiliaid, mae Medr wedi gofyn am farn darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr, cyrff diwydiant, dysgwyr a sefydliadau cynrychioliadol ar yr egwyddorion lefel uchel ar gyfer y rhaglen newydd, fframweithiau sector, llwybrau dilyniant, modelau darparu hyblyg a'r diffiniad o brentisiaethau o Lefel 2 i Lefel 6. Yn hollbwysig, mae Medr yn adolygu'r holl fframweithiau prentisiaeth presennol rhwng 2025 a 2027, gan sicrhau eu bod yn cefnogi cynnydd "o Lefel 2 i fyny, i radd-brentisiaethau lle bo hynny'n briodol" ochr yn ochr ag ystyried y galw yn y sector, anghenion sgiliau yn y dyfodol a disgwyliadau cyflogwyr. Y broses hon o gasglu tystiolaeth fydd yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch a ddylid ychwanegu pynciau newydd at y cynnig gradd-brentisiaethau a lle byddai ehangu yn dod â'r budd mwyaf i ddysgwyr, cyflogwyr ac economi Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n barod i ystyried ehangu gradd-brentisiaethau ond mae'n credu bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn seiliedig ar dystiolaeth glir o alw gan gyflogwyr, budd i ddysgwyr ac effaith economaidd, a bydd yn cael ei lywio gan y gwaith parhaus sy'n cael ei arwain gan Medr. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Medr, prifysgolion a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddeall parodrwydd y sector, goblygiadau ariannol, a'r meysydd lle byddai ehangu yn creu'r enillion economaidd a chymdeithasol mwyaf.

# 2. Masnach a Ffiniau

## Safleoedd Rheolathau'r Ffin

## Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi

**Argymhelliad 16. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am effeithiau disgwyliedig y trafodaethau rhwng y DU a'r UE ar bolisi, gweithrediadau a chyllideb Llywodraeth Cymru, yn enwedig gan eu bod yn ymwneud â datblygu Safleoedd Rheolaethau'r Ffin.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddiweddaru ac adolygu ei blaenoriaethau wrth i'r trafodaethau rhwng y DU a'r UE ddatblygu ac wrth i amgylchiadau newid. Byddwn yn parhau i ystyried unrhyw effaith y gallai'r gwaith parhaus hwn ei gael ar Gymru. Fodd bynnag, gan fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, ni allwn wneud sylwadau ar yr hyn y gellir ei gynnwys na beth allai'r effaith honno fod nes bydd unrhyw gytundeb wedi'i gwblhau.

Nododd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig safbwynt Llywodraeth Cymru ar Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yng Nghymru, a'r datganiad hwn[1] yw'r sefyllfa bresennol o hyd. Penderfynodd Llywodraeth y DU i ohirio gweithredu trefniadau'r Model Gweithredu Targed y Ffin sy'n awgrymu y bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu. Gan weithio gyda chydweithwyr yn llywodraethau'r DU a'r Alban, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r goblygiadau ar gyfer safleoedd rheolaethau'r ffin yng Nghymru. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor fel y bo'n briodol.

**Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amcangyfrif o'r costau i fusnesau sy'n ymwneud â Safleoedd Rheolaethau'r Ffin a chostau gweinyddol sy'n ymwneud â'r drefn fasnachu ar ôl Brexit.**

**Ymateb: Gwrthod**

[1] Datganiad Ysgrifenedig: Rheolaethau'r Ffin ar fewnforion i Gymru o Iwerddon

Nid oes costau penodol i fusnesau Cymru.  Nid ydym wedi gweithredu Safleoedd Rheolaethau'r Ffiniau yng Nghymru ac - gan dybio canlyniad llwyddiannus i'r trafodaethau gyda'r UE - nid ydym yn bwriadu gwneud hynny.

Efallai y bydd cwmnïau o Gymru'n wynebu rhywfaint o gostau ychwanegol wrth fasnachu ag Ewrop ar ôl Brexit, er enghraifft os ydynt yn mewnforio nwyddau perthnasol drwy Dover, ond nid yw'r costau hyn yn wahanol i'r rhai a wynebir gan gwmnïau eraill o Brydain.

**Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gyfnodau chwarterol fydd yn cael sylw yn adolygiad CThEF o ystadegau masnach y DU mewn ymateb i'r adroddiad hwn, a darparu dadansoddiad i'r Pwyllgor o'i ganfyddiadau erbyn mis Mawrth 2026.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cyhoeddodd CThEF rag-gyhoeddiad o gywiriadau i Ystadegau Masnach Tramor y DU mewn nwyddau ar ôl canfod gwall a oedd yn effeithio ar allforio tanwydd (HS2 Pennod 27).

Mae'r gwall hwn yn effeithio ar ddata o **fis Mawrth 2024 ymlaen**.

Nid yw cywiriadau wedi'u cymhwyso eto i'r setiau data a gyhoeddwyd.  Bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn y canlynol:

- ONS Ch3 Cynnyrch Domestig Gros (GDP) diwygiedig ar 22 Rhagfyr 2025.
- Datganiad Masnach y DU y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Ystadegau Masnach Tramor CThEM ar 15 Ionawr 2026.

Ar lefel Cymru, cyhoeddodd CThEF ei fwriad i gyhoeddi Ystadegau Masnach Ranbarthol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben yn Ch3, 2025 fel y bwriadwyd ar 18 Rhagfyr 2025. Cynhaliwyd prif ddadansoddiad gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru: Masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: Hydref 2024 i Medi 2025. Nid oedd y dadansoddiad hwn yn adlewyrchu cywiriadau CThEF; yn hytrach, cyflwynwyd data masnach heb gynnwys 'olew' hefyd i ddarparu llinell sylfaen sefydlog nes bydd data diwygiedig ar gael.

Bydd y Datganiad Technegol Rhanbarthol diwygiedig sy'n rhoi cyfrif am y cywiriad ar gael ar 19 Mawrth 2026 ar gyfer holl wledydd a rhanbarthau'r DU gan gynnwys Cymru, ochr yn ochr â chyfres amser wedi'i chywiro yn ôl i fis Mawrth 2024. Cyn cyhoeddi, mae CThEF wedi amcangyfrif y byddai'r cywiriad yn cynyddu allforion nwyddau Cymru ar gyfer 2024 tua 7.9% (£1.4 biliwn) o'i gymharu â chyfanswm blynyddol presennol 2024 a gyhoeddwyd, sef £17.5

biliwn. Ar gyfer Ionawr - Medi 2025, amcangyfrifir y bydd allforion yn cynyddu tua 12.1% (£1.5 biliwn) o'i gymharu â'r cyfanswm presennol a gyhoeddwyd yn 2025, sef £12.7 biliwn.

Bydd dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn dadansoddi goblygiadau'r gwall i berfformiad allforio Cymru pan fydd y data diwygiedig ar gael. Fodd bynnag, oherwydd amseriad arfaethedig y datganiad data (19 Mawrth), mae'n annhebygol y gellir darparu dadansoddiad llawn i'r Pwyllgor o fewn amserlen mis Mawrth 2026.

# 3. Materion Gwledig

**Bydd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn ateb argymhellion 19-25**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 Llywodraeth Cymru

## Cyflwyniad

Ar 14 Hydref 2025, gosododd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft amlinellol ar gyfer 2026-27 ac ar 3 Tachwedd 2025, gosododd ei Chyllideb Ddrafft fanwl. Mae'r ymateb hwn yn dilyn tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod craffu ar y gyllideb ar 26 Tachwedd 2025.

Yn y cyfarfod hwnnw, roedd y Pwyllgor wedi cynnal tair sesiwn graffu. Roedd y sesiwn gyntaf yn edrych ar faterion gwledig gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Roedd yr ail sesiwn yn edrych ar faterion yn ymwneud â masnach a ffiniau gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Roedd y sesiwn derfynol yn edrych ar yr economi a sgiliau gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Mae'r argymhellion yn dilyn y tair sesiwn graffu wedi cael eu hystyried yn ofalus. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn ateb argymhellion 19-25 isod. Mae argymhellion 1-18 yn cael eu hateb ar wahân.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth barhaus

# Cynnwys

**1. Cymorth amaethyddol ........ 4**
**2. Pysgodfeydd ........ 6**
**3. TB Buchol ........ 8**
**4. Garddwriaeth ........ 9**

# 1. Cymorth amaethyddol

**Argymhelliad 19.**

Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yr holl fecanweithiau posibl sydd ar gael iddi i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael y cyllid sydd ei angen i gyflawni ei huchelgais, drwy gefnogi ffermwyr. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru ddatgan ei safbwynt yn glir ar ddyrannu cymorth amaethyddol drwy ddefnyddio fformiwla Barnett, a dylai ailagor trafodaethau gyda'r DU ynghylch symud yn ôl i ddyrannu cymorth yn seiliedig ar anghenion/cynhyrchu ar gyfer amaethyddiaeth.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym yn darparu £367m ym mlwyddyn gyllidol 2026-27, gan gynnwys yr holl gyllid fferm newydd (£339.6m) a gafodd ei osod yn llinell sylfaen cyllideb Llywodraeth Cymru rhwng 2024-5. Llwyddodd Llywodraeth Cymru i wneud hyn yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu'r arian a oedd wedi'i neilltuo'n flaenorol ar gyfer cyllid amaethyddol yng Nghymru, sy'n golygu mai Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar lefel y cyllid amaethyddol i Gymru erbyn hyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y sector. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyllideb o £238m ar gyfer cynllun yr haen Gyffredinol a hen gynllun y Taliad Sylfaenol yn 2026, gan annog cynifer o ffermwyr â phosibl i ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn iddynt allu dechrau gwireddu'r manteision cyn gynted â phosibl gan warantu o leiaf £102m eleni i annog nifer sylweddol i fanteisio ar y Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol, a fydd yn hanfodol i gyflawni ein hymrwymiadau hinsawdd a natur.

Yn yr un modd ag ar gyfer pob maes gwariant arall, bydd fformiwla Barnett ond yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw newidiadau mewn gwariant yn Lloegr yn y dyfodol ar raglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru. Mae Cymru'n cael yr un newid y pen â Lloegr, gyda ffactor anghenion ychwanegol o 5%. Mae'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid wedi cytuno ar ddarn o waith ar y cyd sy'n edrych ar ffyrdd o wella gweithrediad fformiwla Barnett. Bydd y gwaith hwn yn cael ei adrodd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn y gwanwyn.

Goblygiadau ariannol – Dim.

**Argymhelliad 20.**

Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth nesaf Cymru ystyried sut y gallant sicrhau bod gwerth y pecyn cymorth amaethyddol mewn termau real yn dychwelyd i lefelau cyn 2016

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn cymorth amaethyddol a chyllid fferm sy'n gweithio i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredin ar gyfer diogelwch bwyd cynaliadwy a sicrhau amcanion carbon ac amgylcheddol hanfodol. Mater i Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, yw penderfynu sut i ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r amgylchiadau a'r blaenoriaethau yng Nghymru. Er bod cyllidebau amaethyddiaeth a chyllid fferm bellach yn gweithredu ar gylchoedd blynyddol yn unig, yn wahanol i raglenni blaenorol a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, bydd Llywodraeth Cymru bob amser yn ceisio defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i sicrhau cyllideb sy'n cefnogi'r sector pwysig hwn orau.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol

# 2. Pysgodfeydd

**Argymhelliad 21.**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb Pysgodfeydd gyflymu'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sy'n weddill

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y cyllid yn cyflymu'r gwaith o gyflawni prosiectau gwyddoniaeth a thystiolaeth a fydd yn llywio cynnwys Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a sut rydym yn rhoi camau gweithredu penodol ar waith, yn enwedig ar gyfer stociau nad ydynt yn rhai cwota. Er enghraifft, yn ddiweddar rydym wedi comisiynu astudiaeth a fydd yn gwella ein dealltwriaeth o bysgodfeydd crancod brown a chimychiaid yn sylweddol yn nyfroedd Cymru i lywio'r Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Crancod a Chimychiaid a chamau rheoli yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol

**Argymhelliad 22.**

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn croesawu'r dyraniad canlyniadol o £18 miliwn dros 12 mlynedd a'r £1.29 miliwn a ddyrannwyd yn 2026-27 gan Lywodraeth y DU, o ganlyniad i'r £360 miliwn a gyhoeddwyd gan Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol y DU.
Mae pwysigrwydd ein diwydiant pysgota a chymunedau arfordirol wedi cael ei gydnabod yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, gyda £1.29 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y sector pysgodfeydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.
Bydd y gyllideb ychwanegol yn cael ei buddsoddi yn y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Datblygu'r farchnad

- Diogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd
- Buddsoddi yn y gweithlu
- Twf ac adeiladu capasiti mewn cymunedau arfordirol
- Gwyddoniaeth a thystiolaeth.

Byddwn yn fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran cyflawni wrth i'r trafodaethau â rhanddeiliaid a'r gweithgarwch disgwyliedig ddatblygu.

Goblygiadau ariannol – Dim.

**Argymhelliad 23.**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gellid defnyddio'r Gronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol i sicrhau bod manteision cadwyn gyflenwi bwyd môr Cymru yn aros yng Nghymru er budd cymunedau arfordirol, gan gynnwys buddsoddi yn y sector prosesu bwyd môr

**Ymateb: Derbyn**

Mae cyfleoedd cyllido i sicrhau bod manteision cadwyn gyflenwi bwyd môr Cymru yn aros yng Nghymru yn rhan annatod o'r blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb ychwanegol hon.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol

# 3. TB Buchol

**Argymhelliad 24.**

Dylai'r adolygiad o daliadau digolledu TB buchol gael ei gwblhau cyn diwedd y Senedd hon er mwyn cyfrannu at ddull gweithredu nesaf Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull ataliol o ariannu TB buchol drwy fynd i'r afael â'r clefyd ei hun gyda pholisïau effeithiol. Dylid llunio'r rhain ar sail tystiolaeth a chyngor y Grŵp Cyngor Technegol a'r Bwrdd Rhaglen, gan gynnwys dysgu gwersi o arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Rydym yn comisiynu adolygiad annibynnol o ddigolledu TB buchol drwy ymarfer caffael. Y bwriad yw dyfarnu'r contract cyn y cyfnod cyn yr etholiad, a disgwylir adroddiad erbyn diwedd 2026.

Mae'r Grŵp Cynghori Technegol a'r Bwrdd Rhaglen Dileu TB wedi nodi rhaglen waith, sy'n eu galluogi i ganolbwyntio ar feysydd allweddol TB buchol. Mae'r cyngor a ddarparant yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cynnwys gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau o Gymru a thu hwnt. Mae newidiadau diweddar i bolisi eisoes wedi elwa o gyd-ddylunio o'r fath, ac mae'r dull hwn yn parhau.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol

# 4. Garddwriaeth

**Argymhelliad 25.**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir yn y gyllideb hon pa gymorth y bydd garddwriaeth yn ei gael o bob dyraniad, a dylai Llywodraeth nesaf Cymru nodi hynny mewn cyllidebau yn y dyfodol.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwahanol fathau o gymorth i'r sector garddwriaeth. Fodd bynnag, ni fyddai cyflwyno un prif ffigur ar gyfer cyfanswm y gwariant ar y sector hwn yn adlewyrchu natur y gefnogaeth a ddarperir yn gywir. Elfen bwysig o'r gefnogaeth i'r sector yw'r rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Cyswllt Ffermio. Er y bydd y contract presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026, bydd rhaglen newydd ar gael o 1 Ebrill ymlaen a fydd yn cynnig ymyriadau cymorth am ddim ac â chymhorthdal.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu dau gynllun grant cyfalaf pwrpasol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer garddwyr – y Cynllun Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol a'r Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth. Mae garddwyr hefyd yn elwa o bob cynllun grant arall sy'n draws-sectoraidd, megis grantiau amgylcheddol ac effeithlonrwydd, lle nad yw dyraniadau'r gyllideb yn nodi math o fferm na sector. Dylid nodi hefyd bod y Cynllun Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol yn cynnwys gwariant ar arallgyfeirio i sectorau ar wahân i arddwriaeth. Mae'r swm a werir dan y cynlluniau hyn yn dibynnu ar nifer ac ansawdd y ceisiadau sy'n dod i law, ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu lefel y gyllideb sydd ar gael.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol

**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

Senedd Cymru

**21 January 2026**

Dear Chair and Members of the Committee,

We are writing on behalf of the Board of Sector Development Wales Partnership (trading as Industry Wales) to provide the Committee with an update on recent developments relating to the Welsh Government Review of Industry Wales and the subsequent decision to dissolve the organisation.

Given the significance of this decision for Wales's industrial landscape, workforce, and sector engagement arrangements, the Board considered it appropriate to ensure the Committee is sighted on the sequence of events, the concerns raised to date, and the documentation now available.

**Context and recent developments**

As the Committee may be aware, the Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning laid a Written Statement before the Senedd on **2 October 2025** announcing the decision to dissolve Industry Wales. That Written Statement was explicitly based on the recommendations of a Welsh Government Review undertaken during mid-2025.

The Written Statement was the **first formal notification** received by Industry Wales staff and Board members that a decision had been taken. The Board did not have prior sight of the Review that informed the Written Statement and did not receive a copy of the Review until **19 January 2026**, more than three months after the statement had been laid before the Senedd.

During this period, and **prior to receiving the Review**, the Board wrote formally to the Senedd's **Finance Committee** and **Public Accounts and Public Administration Committee**, as well as to the **Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**, to raise concerns regarding process, access to

information, and the absence of Board engagement. These letters are included in the attached pack to provide transparency and to demonstrate the chronology of engagement before the Board was able to scrutinise the Review itself.

The Board further notes that the Review was only provided following correspondence with Senedd scrutiny committees earlier this month, which was subsequently forwarded to Welsh Government officials.

While the Board does not seek to draw conclusions from this sequence, it considers it important context for the Committee's understanding that the Written Statement announcing dissolution was made on the basis of a Review to which the Board had no access at the time and no opportunity to scrutinise, respond to, or contextualise.

Since receiving the Review, the Board has undertaken detailed scrutiny of its findings, methodology and conclusions. While the Board accepts the Review's diagnosis that historic governance arrangements and remit clarity required reform, it has raised concerns that the evidence presented does not sufficiently support the preferred recommendation, nor does it fully reflect the corrective action already undertaken by the current executive team.

**Purpose of this correspondence**

This correspondence is not intended to seek a particular outcome from the Committee, but to:

- ensure Members are sighted on the **process and timing** surrounding the Review and decision;
- highlight **substantive concerns about evidence, methodology, remit coverage, workforce impacts and transition planning**; and
- provide the Committee with a clear, navigable pack of relevant documents should it wish to consider these matters further.

**Documents enclosed and confidentiality**

For ease of reference, the Board is providing the following documents as a single pack:

1. **Welsh Government Review (March 2025): Sector Development Wales Partnership (trading as Industry Wales) Review – Final Report**

The Review undertaken during 2025 which informed the Written Statement of 2 October 2025.

**Shared with the Committee in confidence.**

2. **Board letter to Senedd scrutiny committees (January 2026) – Finance Committee and Public Accounts and Public Administration Committee**

Correspondence sent prior to the Board receiving the Review, raising concerns regarding process, access to information, governance context and transition planning.

**Already a public document**

3. **Board letter to the Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning (January 2026)**

Correspondence sent prior to the Board receiving the Review, setting out concerns regarding process and seeking transparency and engagement.

**Shared with the Committee in confidence.**

4. **Board submission / briefing paper to the Senedd Committees (January 2026)**

A fully referenced Board paper analysing the Review's findings and conclusions, including where the Board believes the evidence does not sufficiently support the preferred recommendation.

**Shared with the Committee in confidence.**

5. **Board's formal response to the Cabinet Secretary (January 2026)**

The Board's formal response to the Review following receipt on 19 January 2026, addressing process, methodology, remit coverage, workforce impacts and transition risk.

**Shared with the Committee in confidence.**

Welsh Government officials have indicated that they are expecting a **formal request from the Committee** for the Review. Should the Committee choose to make such a request, the Board understands that the Review would then enter the public domain, at which point the accompanying briefing paper and correspondence could also be released publicly **if the Committee judges that appropriate**.

Members may find it helpful to read items **(4)** and **(5)** first, as these provide the Board's consolidated analysis and formal position, with the Review included at **(1)** for cross-reference.

**Closing**

The Board remains committed to engaging constructively with Senedd scrutiny and to supporting a clear understanding of the issues arising from this process. We would, of course, be happy to provide further clarification or oral evidence should the Committee consider that helpful.

**Yours sincerely,**



**Professor Keith Ridgway**
Chair, Industry Wales



**Dr Jenifer Baxter**
Chief Executive, Industry Wales

On behalf of the Board

Sector Development Wales Partnership

(trading as Industry Wales)

## Annex A: Chronology of Key Events – Industry Wales Review and Decision

| Date | Event | Notes / significance |
|---|---|---|
| **Early–Mid 2025** | Welsh Government Review of Sector Development Wales Partnership (Industry Wales) conducted | Review commissioned and interviews undertaken. Industry Wales Board was not formally consulted on emerging findings or options during this period. |
| **Mid-2025** | Review analysis completed | Review included AI-assisted synthesis of interview material. Board did not have sight of outputs, methodology, or draft conclusions. |
| **2 October 2025** | Written Statement laid before the Senedd by the Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning | Statement announced the decision to dissolve Industry Wales. This was the **first formal notification** received by Industry Wales staff and Board members. |
| **2 October 2025** | Written Statement explicitly based on the Review's recommendations | Decision announced before the Review was shared with the organisation most directly affected by its conclusions. |
| **October–December 2025** | Post-announcement period | Industry Wales Board and staff had no access to the Review, limiting ability to understand the evidence base, rationale, or proposed transition arrangements. |
| **Early January 2026** | Board writes to Senedd Finance Committee and Public Accounts and Public Administration Committee | Correspondence raised concerns regarding process, evidence, governance context, workforce impacts and absence of transition planning. |

| Date | Event | Notes / significance |
|---|---|---|
| **Mid-January 2026** | Correspondence forwarded to Welsh Government officials | Committees shared Board correspondence with officials for awareness and response. |
| **19 January 2026** | Welsh Government Review provided to Industry Wales Board | First time the Board received the Review that informed the Written Statement — **more than three months after** the decision was announced publicly. |
| **Late January 2026** | Board undertakes detailed analysis of the Review | Scrutiny included human review and triangulated analysis using multiple AI tools to test evidential robustness and options appraisal. |
| **January 2026** | Formal Board responses issued | Letters sent to Senedd scrutiny committees and the Cabinet Secretary setting out concerns regarding evidence, methodology, remit coverage, audit context, workforce impacts and transition risk. |
| **January–February 2026** | Ongoing engagement and documentation sharing | Board provides further material to support transparency, accountability and scrutiny, including audit outcomes and governance improvements. |
| **31 March 2026** | **Planned cessation of Industry Wales** | Industry Wales is scheduled to cease operations at the end of March 2026, underscoring the urgency of resolving outstanding issues relating to transition, workforce support and continuity of remit. |

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-MDFWL-3074-25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Ionawr 2026

Annwyl Andrew,

**Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr 2026 a'r ddadl ar 13 Ionawr am egwyddorion cyffredinol Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil"), ysgrifennaf nawr i gadarnhau ymatebion y llywodraeth i bob un o'r 23 o argymhellion a wnaed yn adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**Argymhelliad 1**
Ni ddylai Seneddau a llywodraethau yn y dyfodol gymryd yr amserlen a roddwyd i'r Bil hwn fel cynsail ar gyfer gwneud a chraffu ar ddeddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth frys. Dylid osgoi amserlen mor fyr oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn mynnu fel arall.

**Ymateb y Llywodraeth - Nodwyd**
Fel y dywedais yn ystod y ddadl ar 13 Ionawr am yr egwyddorion cyffredinol, mae'n anochel y bydd amser yn brin i ddelio â'r Biliau sydd wedi'u trefnu ar gyfer blwyddyn olaf y Senedd hon.  Heb hyn, byddai cyfyngiadau mawr ar allu'r Senedd i ddeddfu yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd, gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru).

**Ymateb y Llywodraeth - Nodwyd**
Diolchais i'r pwyllgor am ei argymhelliad i gefnogi'r Bil yn y ddadl am yr egwyddorion cyffredinol ac rwy'n falch bod y Bil yn awr yn mynd yn ei flaen i Gyfnod 2.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 3**
Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio’r Bil yng Nghyfnod 2 i wneud cychwyn y cynllun trwyddedu yn amodol ar gymeradwyaeth bellach gan y Senedd.

**Ymateb y Llywodraeth – Gwrthod**
Nid yw Gorchmynion Cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd. Byddai cytuno â'r argymhelliad hwn yn golygu y byddai angen cymeradwyaeth bellach er mwyn gweithredu Deddf yr oedd y Senedd eisoes wedi cytuno arni. Felly, ni all y Llywodraeth dderbyn yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 4**
Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio’r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau y gall darpariaethau’r Bil gael eu cychwyn erbyn diwedd y tymor Senedd nesaf a drefnwyd.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn mewn egwyddor**
Fel y gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr, rwyf bellach wedi cyflwyno amryw o welliannau, gan gynnwys darpariaeth ohirio i gychwyn y Ddeddf erbyn Mawrth 2030 os na fydd wedi'i chychwyn erbyn hynny.

**Argymhelliad 5**
Yn ei ymateb i’r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa drafodaethau sydd wedi digwydd, ac sydd yn yr arfaeth, gyda chynrychiolwyr y diwydiant twristiaeth ar gynigion ar gyfer gweithredu’r Bil.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Fel y gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr ac yn ystod y ddadl am yr egwyddorion cyffredinol, bu swyddogion Llywodraeth Cymru gydol proses datblygu'r Bil yn trafod yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol a bydd hynny'n parhau. Gweler hefyd fy ymateb i argymhelliad 21 isod.

**Argymhelliad 6**
Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa welliannau y mae’n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Esboniais yn fanwl yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr ac yn ystod y ddadl am yr egwyddorion cyffredinol, y gwelliannau roeddwn am eu cyflwyno yng Nghyfnod 2. Maent wedi’u cyflwyno bellach.

**Argymhelliad 7**
Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio’r Bil yng Nghyfnod 2 i ymrwymo i gynnal a chyhoeddi adolygiad o weithrediad ac effaith y darpariaethau yn y Bil erbyn mis Ebrill 2034 fan bellaf.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn mewn egwyddor**
Fel y gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr, ac yn ystod y ddadl am yr egwyddorion cyffredinol, rwyf bellach wedi cyflwyno gwelliant o'r fath.

**Argymhelliad 8**
Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith a wnaed hyd yma ar ddatblygu'r cod ymarfer a'r canllawiau cysylltiedig. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am gynnwys disgwyliedig y cod.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Bydd canllawiau'r cynllun trwyddedu yn cael eu paratoi ar ôl drafftio'r rheoliadau. Ein bwriad yw eu cyhoeddi ymhell cyn rhoi'r cynllun ar waith.

Mae'r cod ymarfer yn trafod lawer mwy na'r cynllun trwyddedu ond mae'n hanfodol ar gyfer ei gyflawni. Mae swyddogion wedi bod yn trafod cod ymarfer twristiaeth Cymru gyda'r rheini sydd wedi bod yn cynhyrchu'r cod ar gyfer Lloegr ers tro. Wrth reswm, byddwn am i'r cod ymarfer adlewyrchu'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf, felly rydym am ailystyried yr opsiynau flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 9**
Dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau cyfnod o amser gofynnol priodol i'r Senedd ystyried rheoliadau a gynigir o dan adran 5.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn mewn egwyddor**
Fel y gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr, ac yn ystod y ddadl am yr egwyddorion cyffredinol, rwyf bellach wedi cyflwyno gwelliant i ymgynghori am gyfnod gofynnol cyn defnyddio'r pŵer o dan baragraff 5(1)(b).

**Argymhelliad 10**
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau a gyhoeddir o dan adran 55 yn mynd i'r afael â rhwymedigaethau darparwyr llety ymwelwyr mewn perthynas â'r safon cyffredinol o ran ffitrwydd yn adran 7.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Bydd mwy o fanylion am hyn yng nghanllawiau arfaethedig y cynllun, yn ogystal ag am agweddau eraill ar y drefn reoleiddio o dan y Bil.

**Argymhelliad 11**
Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion rheoli gwastraff ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei chod ymarfer, er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac, ar ben hynny, dylai ddiwygio'r Memorandwm Esboniadol i nodi rhwymedigaethau presennol y trwyddedai mewn perthynas â gwaredu gwastraff ymwelwyr.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Bydd swyddogion yn ymdrin â hyn pan fydd y cod ymarfer wedi'i gynhyrchu. Yn y cyfamser, byddaf yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 12**
Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys tystysgrifau perfformiad ynni fel safon ychwanegol wrth archwilio diweddariadau i'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw polisi perfformiad ynni. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes, ac yn ystyried unrhyw oblygiadau i'r system drwyddedu yn y dyfodol.

**Argymhelliad 13**
Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 mewn perthynas â'r safon atal tân arfaethedig yn adran 9.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Fel y gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr, ac yn ystod y ddadl am yr egwyddorion cyffredinol, rwyf bellach wedi cyflwyno gwelliant o'r fath.

**Argymhelliad 14**
Dylai Awdurdod Cyllid Cymru ymrwymo i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei waith mewn perthynas â'r gofrestr a'r cynllun trwyddedu i bwyllgor perthnasol yn y Senedd nesaf.

**Ymateb y Llywodraeth – Nodwyd**
Mae'r WRA yn diweddaru'r Pwyllgor Cyllid yn rheolaidd am ei waith, ac awgrymaf y dylai diweddariadau yn y dyfodol sôn am ei waith sy'n ymwneud â'r gofrestr a'r cynllun trwyddedu. Bydd y pwyllgor perthnasol yn sicr wedi cael ei gadarnhau erbyn y Senedd nesaf.

**Argymhelliad 15**
Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr a chadarnhau nifer cyfartalog y trwyddedau ar y cyfan y mae Rhentu Doeth Cymru'n ymdrin â hwy bob blwyddyn a'r amser a gymer i brosesu ceisiadau ar hyn o bryd. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi hefyd unrhyw amcangyfrif a wnaed ganddo o'r amser y bydd yn ei gymryd i brosesu a dyroddi'r 30,000 o drwyddedau llety ymwelwyr, yn ôl yr amcangyfrif, y bydd angen eu dyroddi ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun trwyddedu.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr bod swyddogion wrthi'n adolygu'r dystiolaeth ychwanegol a rannwyd gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr ac y byddwn yn trafod y mater mewn llythyr gyda'r Pwyllgor.

Mae'r Gymdeithas Llety Tymor Byr yn iawn i dynnu sylw at y ffaith bod nifer y ceisiadau y mae Rhentu Doeth Cymru yn eu derbyn o flwyddyn i flwyddyn yn is na'r ffigur a ddisgwylir yn union wedi i'r Bil gael ei roi ar waith. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn gweld cyfwerthedd yn y prosesau ymgeisio. Mae'r broses ymgeisio ar gyfer Rhentu Doeth Cymru yn wahanol i'r un yn y Bil: mae eu system drwyddedu yn gofyn bod ymgeiswyr yn cael prawf eu bod yn addas a phriodol, ac asiantwyr hefyd. Mae eu gweithgaredd cydymffurfio yn cynnwys archwiliadau ar raddfa fawr o asiantwyr. Nid yw hynny chwaith yn rhan o'r system drwyddedu a gynigir yn y Bil. Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu cydbwysedd gwahanol iawn o ran sut a phwy o'r rhyw 200,000 llety sy'n dod o dan y drefn Rhentu Doeth Cymru y bydd gweithgarwch cydymffurfio yn effeithio arnyn nhw, ac nid wyf yn cytuno y bydd nifer y ceisiadau yr un faint â nifer y trwyddedau y mae Rhentu Doeth Cymru yn delio â nhw flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae swyddogion wedi trafod cynlluniau ar gyfer trwyddedu gyda Rhentu Doeth Cymru, gan gynnwys prosesu ceisiadau a chadarnhau cydymffurfiaeth a lle bo hynny'n berthnasol, mae hyn wedi llywio'r rhagdybiaethau a wnaed ynghylch faint o amser sydd ei angen i brosesu ceisiadau a gwirio dogfennau sy'n sail i'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil.

**Argymhelliad 16**
Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i estyn y cyfnod gofynnol y gellir rhoi trwydded llety ymwelwyr ar ei gyfer.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn mewn egwyddor**
Fel y gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr ac yn ystod y ddadl am yr egwyddorion cyffredinol, rwyf bellach wedi cyflwyno gwelliant sy'n caniatáu cyfnodau trwyddedu gwahanol.

**Argymhelliad 17**
Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Senedd ynghylch sut y disgwylir i'r ddarpariaeth ar gyfer cwynion yn adran 22 weithio'n ymarferol, gan gynnwys sut y bydd cwynion yn cael eu hasesu a beth fydd yr effaith ymarferol pe bai cwyn yn cael ei chadarnhau.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Ymatebais yn fanwl i'r argymhelliad hwn yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr.

**Argymhelliad 18**
Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch eu rôl bosibl yn y broses orfodi, ac egluro'r rôl bosibl y gallai Croeso Cymru ei chwarae.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Ymatebais yn fanwl i'r argymhelliad hwn yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr.

**Argymhelliad 19**
Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i ddarparu y bydd y rheoliadau a wneir o dan adran 38 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

**Ymateb - Derbyn mewn egwyddor**
Fel y gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr ac yn ystod y ddadl am yr egwyddorion cyffredinol, rwyf bellach wedi cyflwyno gwelliant o'r fath.

**Argymhelliad 20**
Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach sut y bwriedir i'r ddarpariaeth yn adran 42 weithio'n ymarferol, gan gynnwys ei chyfiawnhad dros gynnwys 42(4).

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Ymatebais yn fanwl i'r argymhelliad hwn yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr.

**Argymhelliad 21**
Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet:
- ddarparu diweddariad am drafodaethau gyda phlatfformau/asiantau archebu ynghylch y darpariaethau yn adrannau 46 a 47,
- darparu rhagor o wybodaeth am y rhesymeg dros estyn y drosedd arfaethedig i gyrff heblaw darparwyr llety ymwelwyr, a
- darparu rhagor o wybodaeth am y camau penodol y gallai fod angen eu cymryd i gadarnhau amddiffyniad i'r trosedd arfaethedig.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Ymatebais yn fanwl i'r argymhelliad hwn yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr.

**Argymhelliad 22**
Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i gyfyngu cwmpas y drosedd hysbysebu a marchnata yn adran 47 i ddarparwyr llety ymwelwyr yn unig.

**Ymateb y Llywodraeth – Gwrthod**
Ymatebais i'r argymhelliad hwn yn ystod y ddadl am egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 23**
Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i'r dystiolaeth ychwanegol benodol a gafodd y Pwyllgor.

**Ymateb - Derbyn mewn egwyddor**
Gwnes i gadarnhau yn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr bod y dystiolaeth ychwanegol a roddwyd i'r Pwyllgor wrthi'n cael ei dadansoddi a byddaf yn ysgrifennu gydag unrhyw esboniadau neu ymatebion pellach sydd eu hangen yn sgil cynnal y dadansoddiad hwnnw.


Mae swyddogion wedi ystyried y dystiolaeth, a lle roeddwn i'n ystyried bod angen newidiadau, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau i'r perwyl hwnnw. Byddwn yn parhau i ystyried y dystiolaeth ochr yn ochr â'r Bil gydol Cyfnod 2, a byddwn yn ystyried a oes angen rhagor o welliannau yng Nghyfnod 3.

Trafodwyd llawer o'r pwyntiau a godwyd yn y dystiolaeth ychwanegol yn ystod y broses graffu, gan gynnwys bwriadau polisi'r Bil, ffitrwydd cyffredinol, a'r ffordd y byddwn yn helpu busnesau wrth roi'r cynllun ar waith, ond yn gwirio dogfennau cyn rhoi trwydded. Fe wnes i drafod llawer o'r pwyntiau hyn eto yn y ddadl am egwyddorion cyffredinol. Yn arbennig, y materion hyn sy'n ymwneud ag ymwelwyr. Er mwyn i'r cynllun gyflawni ei bwrpas, rhaid i ni allu argyhoeddi ymwelwyr y bydd y llety maen nhw'n ei archebu yn bodloni'r safonau maen nhw'n eu disgwyl.

Gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol, ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio'n adeiladol gyda'r pwyllgor yn ystod Cyfnod 2.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Cyllid, er gwybodaeth.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Eitem 2.5

Mr. Andrew R.T. Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig y Senedd
Llywodraeth Cymru
Caerdydd CF99 1NA

Drwy e-bost i: SeneddEconomy@senedd.wales

28 Ionawr 2026

**Diweddariad yn dilyn argymhelliad y pwyllgor ar ymdrin â chwynion**

Annwyl Andrew,

Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru mewn ymateb i Argymhelliad 10 o adroddiad y Pwyllgor, sy'n ymwneud â thrin cwynion.

Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, comisiynodd Llywodraeth Cymru ei Adolygiad Asesu Prosiect a adroddodd yn 2025 ac yn dilyn hynny rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r adroddiad hwnnw ym mis Awst gan nodi:

*"Mae'n bleser gennyf nodi bod y Tîm Adolygu wedi canfod bod y trefniadau rhwng Tîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru a DBW yn effeithiol, ac mae gan y banc le da i gyflawni ei amcanion a'i dargedau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.*

*Canfu'r Tîm hefyd fod diwydrwydd dyladwy cynhwysfawr a chadarn yn cael ei gynnal mewn perthynas â chwsmeriaid y banc, sy'n lliniaru'r risg ariannol ac enw da, ac mae'r banc yn dilyn prosesau cadarn i ddilyn cwynion, nad oes llawer ohonynt. Yn unol â chanfyddiadau arfer da ar gyfer ymdrin â chwynion a diwydrwydd dyladwy, nid oedd unrhyw argymhellion penodol ar gyfer camau pellach yn ymwneud â'r naill neu'r llall o'r meysydd hyn."*[1]

Ni wnaed unrhyw argymhellion penodol gan y tîm adolygu ynghylch cwynion heblaw am yr angen am fwy o fanylion am y broses i'w dilyn pan fo cwyn i'w chyfeirio ymlaen at dîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r pwynt hwn wedi'i egluro ers hynny yn y diweddariad diweddaraf i'r Ddogfen Fframwaith.

[1] https://business.senedd.wales/documents/s164692/Letter%20from%20the%20Cabinet%20Secretary%20for%20Economy%20Energy%20and%20Planning%20-%204%20August%202025.pdf

**Banc Datblygu Cymru PLC**
Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ellice Way, Wrecsam LL13 7YL
info@developmentbank.wales | Banc Datblygu.Cymru

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Banc Datblygu Cymru Plc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau cyntaf DBW. Mae Banc Datblygu Cymru Plc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru ac nid yw'n cael ei awdurdodi nac ei reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr FCA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru Plc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw un o'r endidau grŵp yn gallu derbyn adneuon gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru Plc i'w weld yn www.banc datblygu.cymru



Banc Datblygu Cymru Plc - Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif 4055414 yn Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ellice Way, Wrecsam LL13 7YL.

Er bod yr adolygiad allanol yn rhoi sicrwydd bod ein prosesau cwyno yn gadarn ac yn gymesur, roedd y Bwrdd hefyd yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor fel cyfle i gryfhau dealltwriaeth, tryloywder ac atal ymhellach ar draws cylch bywyd y buddsoddiad.

Cynhaliwyd adolygiad ymdrin â chwynion pellach gan archwilwyr mewnol annibynnol, RSM UK Risk Assurance Services LLP (RSM) fel rhan o gynllun archwilio mewnol 2025-2026.

Mae copi o drosolwg canlyniadau archwilio RSM ynghyd â chrynodeb o'r camau rheoledig wedi'i atodi fel Atodiad 1. Fel y nodwyd yn yr atodedig, nododd RSM un cam gweithredol canolig a saith blaenoriaeth isel, pob un ohonynt eisoes wedi'u gweithredu.

Diffinnir y camau blaenoriaeth hyn gan RSM fel a ganlyn:

- Canolig: mae angen sylw rheoli amserol
- Isel: mae lle i wella rheolaeth neu wella effeithlonrwydd.

Mae'r camau gweithredu blaenoriaeth ganolig yn ymwneud ag asesu a chategoreiddio adborth a chwynion cwsmeriaid. Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, cofnodwyd cyfanswm o 50 o achosion o adborth cwsmeriaid. Nododd RSM un achos lle roedd ymateb i arolwg cwsmeriaid wedi'i ddosbarthu fel adborth, pan oherwydd bod yr ymateb yn mynegi anfodlonrwydd, dylai fod wedi cael ei ddosbarthu fel cwyn.

Yn olaf, yn dilyn cwyn benodol a dderbyniwyd yn 2024 yn ymwneud â digwyddiadau mewn cwmni buddsoddi yn 2018, ailymwelodd bwrdd cyfarwyddwyr Banc Datblygu Cymru plc ar agweddau allweddol yr achos gyda chefnogaeth adolygiad llywodraethu annibynnol.

Ar ôl ystyried y materion a godwyd yn y gŵyn yn ofalus, mae'r bwrdd yn fodlon bod y Banc Datblygu wedi gweithredu'n briodol ac yn unol ag arferion y farchnad.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i welliant parhaus ac i fodloni'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff cyhoeddus, mae'r rheolwyr yn gweithredu'r mesurau canlynol i gryfhau ein llywodraethu ymhellach:

1. Adolygiad gweithredol o'r trefniadau ar gyfer storio a chadw nodiadau o benderfyniadau sy'n ymwneud â buddsoddiadau
2. Ehangu gweithdrefnau presennol i ddarparu ar gyfer y nifer cyfyngedig o sefyllfaoedd lle derbynnir cwynion gan unigolion nad ydynt yn gwsmeriaid yn dechnegol (cwynion nad ydynt yn gwsmeriaid)
3. Eglurhad o'r llwybr cynyddu a'r broses apeliadau sy'n berthnasol i gwynion nad ydynt yn gwsmeriaid
4. Gwella gweithdrefnau presennol i ddarparu argymhelliad clir i sylfaenwyr y dylent gymryd cyngor annibynnol ar gynnwys a goblygiadau dogfennau sy'n gysylltiedig â buddsoddi (megis cytundebau buddsoddi, erthyglau cymdeithasu, a chytundebau gwasanaeth cyfarwyddwyr). Y nod yw arfogi sylfaenwyr yn well i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain, i hyrwyddo dealltwriaeth o'r dogfennau sy'n cael eu llofnodi ac i leihau'r risg o anghydfodau yn y dyfodol.

Y tu hwnt i fynd i'r afael â'r camau penodol, mae'r tim rheoli wedi myfyrio ar sut i sicrhau bod dysgu o adborth a chwynion yn llywio'n fwy effeithiol y canllawiau a ddarparwn i sylfaenwyr ar ddechrau'r broses fuddsoddi.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno'r *Llawlyfr sylfaenwyr*, a ddatblygwyd o ymchwil fanwl gyda sylfaenwyr busnesau technoleg ac wedi'i lywio gan themâu sy'n dod i'r amlwg o ymchwiliad y Pwyllgor ac adborth y farchnad. Mae'r Llawlyfr yn darparu canllawiau ymarferol i wella dealltwriaeth sylfaenwyr o strwythurau buddsoddi, cyfrifoldebau llywodraethu a gwneud penderfyniadau ar gamau twf allweddol, gan helpu i leihau'r risg o gamddealltwriaeth ac anghydfodau yn y dyfodol. (Llawlyfr sylfaenwyr)

